CYTUNDEB FFRAMWAITH – Atodlen 2

Y Drefn Gwynion

Diben, Diffiniadau a Gwerthoedd

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r trefniadau i ymdrin â phob cwyn yn erbyn pob parti yn Coetiroedd Gwell i Gymru (CGiG). Mae'r Drefn Gwynion yn cynnwys pob sefyllfa lle mae un parti yn datgan anfodlonrwydd neu ddicter am waith neu ymddygiad parti arall yng nghynllun CGiG. Er mwyn i'r Drefn Gwynion fod yn effeithiol, mae'n bwysig ei bod yn:

- Deg
- Eglur
- Hwylus

Y Drefn Gwynion

Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn gyfrifol am redeg y Drefn Gwynion a sicrhau ei bod yn bodloni'r gwerthoedd a restrir uchod. Mae chwe cham:

Dilysu: Ym mhob achos, pan dderbynnir cwyn, bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn gwirio a yw'r gŵyn yn ddilys ai peidio. Bydd hyn yn cynnwys pennu'r ffeithiau trwy siarad â'r achwynydd a'r parti y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn. Bydd rhai mathau o gwynion yn cael eu hystyried yn annilys yn awtomatig ac nid oes a wnelo Comisiwn Coedwigaeth Cymru â'r rhain. Bydd y rhain yn cynnwys cwynion a wneir gan unrhyw:

a) Ymgeisydd yn erbyn Ymgeisydd arall.
b) Ymgeisydd yn erbyn unrhyw Gynlluniwr Rheoli neu Arbenigwr sy'n berthnasol ag unrhyw waith nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â pharatoi Cynllun Rheoli, ac nad yw'n derbyn cymorth grant at y diben hwnnw, gan gynnwys Trwyddedau Cwympo Coed annibynnol, Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol a gwaith sy'n ymwneud â rhoi Contract Cynllun Gweithredu ar waith.
c) Parti yn erbyn unrhyw barti arall am faterion, ymddygiad neu waith nad yw'n rhan o gynllun Coetiroedd Gwell i Gymru.

Penderfynu: Pan benderfynir bod y gŵyn yn ddilys, bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn penderfynu pa gamau i'w cymryd. Ym mhob achos, ac eithrio lle gwnaed cwyn yn erbyn y Rheolwr Gweithrediadau, y Rheolwr Gweithrediadau fydd yn penderfynu pa gamau i'w cymryd. Wrth benderfynu pa gamau i'w cymryd, bydd y Rheolwr Gweithrediadau yn nodi ac yn adolygu cwynion blaenorol a wnaed gan yr achwynydd a chwynion a wnaed yn erbyn y parti y gwneir cwyn amdano, gan gyfeirio at unrhyw gontractau sydd ar waith.

Camau i'w Cymryd: Bydd cwynion am **Gynllunwyr ac Arbenigwyr** yn llifo i'r broses 'Cynnal Safonau' a chymerir camau yn unol â'r arweiniad a geir yn y broses.

Bydd cwynion am **staff Comisiwn Coedwigaeth Cymru** yn llifo i Gyfundrefn Rheoli Perfformiad Comisiwn Coedwigaeth Cymru a chymerir camau yn unol â'r arweiniad a geir yn y broses hon.

Fel arfer, anfonir llythyr rhybudd at **bob parti arall** y gwneir cwyn yn eu herbyn. Lle ceir tri chwyn dilys tebyg yn erbyn unigolyn, gall Comisiwn Coedwigaeth Cymru benderfynu gwahardd yr unigolyn hwnnw o rai prosesau CGiG. Lle mae'r unigolyn yn rhan o sefydliad, gall y camau gynnwys ysgrifennu at reolwr llinell neu uwch reolwr.

Cofnodi: Cofnodir pob anghydfod yn erbyn yr achos (Cynllun Rheoli, Trwydded Cwympo Coed ac ati).

Adborth: Ym mhob achos, bydd yr achwynydd yn cael adborth oddi wrth y Rheolwr Gweithrediadau am y dyfarniad a pha gamau a gymerwyd.

Monitro: Bydd cofnodi anghydfodau yn system ar-lein Grantiau a Thrwyddedau yn golygu y cânt eu monitro. Gwneir gwaith monitro yn flynyddol a chanlyniad hyn fydd ceisio nodi tueddiadau a chyfeirio CGiG at wella'i phrosesau. Bydd yn gymorth i asesu effeithiolrwydd y camau a gymerwyd hefyd.